**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1318
Ein cyf/Our ref LW/00034/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau

1 Chwefror 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Ionawr i gyfeirio at ddeiseb sy'n ceisio eithrio ffyrdd A a B yng Nghymru rhag terfyn cyflymder 20mya cyffredinol arfaethedig.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r materion a godwyd yn y ddeiseb, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gostwng cyflymder yn lleihau damweiniau ac yn achub bywydau, ac ar yr un pryd bydd ansawdd bywyd yn gwella, gan alluogi cyfleoedd i deithio llesol mwy diogel ar ein strydoedd. Mae hyn yn helpu i leihau yr effaith a gawn ar yr mgylchedd ac yn ganlyniad cadarnhaol i'n lles corfforol a meddyliol.

Ar 12 Gorffennaf, cymeradwyodd Senedd Cymru y ddeddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr o 30mya i 20mya.

Ni fydd y ddeddfwriaeth newydd yn defnyddio terfyn cyflymder cyffredinol ar bob ffordd, yn syml, bydd yn gwneud y terfyn diofyn 20mya ar ffyrdd cyfyngedig (yn gyffredinol y ffyrdd hynny sydd â goleuadau stryd). Yna gall awdurdodau priffyrdd lleol, sy'n adnabod eu hardal orau, gymhwyso'r Meini Prawf Eithriadau ac ymgysylltu â'r gymuned leol i benderfynu pa ffyrdd ddylai aros ar gyflymder o 30mya.

Bwriad y canllawiau Eithriadau yw idddynt gael eu dehongli'n lleol gan awdurdodau priffyrdd i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar osod eithriadau i derfyn cyflymder diofyn 20mya. Mae'n darparu methodoleg i sicrhau bod dull cyson o ymdrin ag eithriadau ledled Cymru; ond eto'n caniatáu ystyried ffactorau ac amgylchiadau lleol.

Disgwylir i'r rhan fwyaf o eithriadau gael eu gwneud ar ffyrdd A a B sef y prif lwybrau sy'n cario traffig trwy ardaloedd trefol. Mae ffyrdd eraill fel arfer yn cario traffig lleol ac yn gwasanaethu eiddo preswyl yn unig felly disgwylir na fyddai eithriadau yn cael eu gwneud ar gyfer ffyrdd o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Datblygwyd y meini prawf 'Lle' a ganlyn i arwain awdurdodau priffyrdd i benderfynu, mewn ffordd gyson ledled Cymru, pa rannau ffyrdd sy’n cael eu defnyddio’n helaeth ar gyfer cerdded a beicio:

1. O fewn 100m ar droed o unrhyw leoliad addysgol (e.e. cynradd, uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch)
2. O fewn 100m ar droed o unrhyw ganolfan gymunedol
3. O fewn 100m ar droed o unrhyw ysbyty
4. Lle mae mwy na 20 eiddo preswyl a/neu fanwerthu o flaen ffordd i bob km.

Ni ddylid ystyried rhannau o'r ffordd sy'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf Lle hyn ar gyfer eithriadau. Mae gan awdurdodau priffyrdd yr hyblygrwydd i osod terfynau cyflymder lleol sy'n iawn ar gyfer ffyrdd unigol, gan adlewyrchu anghenion ac ystyriaethau lleol, fodd bynnag, dylent gael achos clir wedi ei resymu dros ddewis peidio â defnyddio'r meini prawf hyn.

Nid yw Llywodraeth Cymru dan unrhyw gamargraff bod hyn yn newid ymddygiad enfawr. Dyma pam nad ydym yn rhuthro pethau. Mae saith awdurdod lleol yn cymryd rhan ar hyn o bryd yn y broses o gyflwyno'r ardaloedd anheddu 20mya ar hyn o bryd. Pwrpas aneddiadau cam 1 yw defnyddio hyn fel cyfle i ddysgu gwersi i lunio'r broses gyflwyno genedlaethol a chasglu data hirdymor.

Gan ganolbwyntio ar y mater a godwyd yn y ddeiseb ynghylch cynnydd mewn llygredd o ganlyniad i'r terfyn cyflymder is, mae sylfaen dystiolaeth gref na fydd 20mya yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd aer, gyda gwelliannau bach wedi'u gweld mewn gwahanol astudiaethau ledled y DU. Er enghraifft, efallai y bydd y Pwyllgor Deisebau yn dymuno gweld asesiad diweddar o lefelau llygredd aer yn Richmond upon Thames, ar ôl gweithredu cynllun 20mya ar ddiwedd 2019 a dechrau 2020. Dangosodd hyn arwyddion cynnar y gallai cyfyngiadau cyflymder is gyfrannu at lefelau llygredd is. Cyhoeddwyd hefyd femorandwm esboniadol ym mis Mehefin 2022, pan osodwyd Gorchymyn Cyflymder 20 mya (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022. Yn yr un modd, mae Cynghorwyr Iechyd Cyhoeddus wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod 'ymchwil wyddonol wedi dangos y gall cyfyngiadau cyflymder is leihau llygredd lle mae ymddygiad gyrru mwy cyson. Mae allyriadau ocsidau nitrogen (NOx) 2 i 4 gwaith yn uwch o ganlyniad i gyflymu caled nag o dan gyflymder cyson; felly, bydd cyflymu i 30mya yn llygru mwy na chyflymu i 20mya ac yna yrru'n fwy cyson'. Yn olaf, er nad yw'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod cyfyngiadau 20mya yn lleihau pob math o lygredd aer, derbynnir yn gyffredinol nad ydynt yn cynyddu llygredd aer o'i gymharu â chyfyngiadau 30mya (Archer et al, 2008; Journard et al, 1995; TEAG, 2013).

Gan droi at y mater a godwyd ynghylch cynnydd mewn tagfeydd o ganlyniad i'r terfyn cyflymder 20mya, mae amseroedd teithio ar ffyrdd mewn ardaloedd trefol yn tueddu i gael eu penderfynu gan gyffyrdd a signalau, yn hytrach na'r terfyn cyflymder. Mewn llawer o achosion ni fydd gostwng y terfyn cyflymder i 20mya yn cael fawr o effaith neu ddim effaith ar amseroedd teithio. Lle mae effaith, mae ein dadansoddiad wedi dangos i ni y byddai'r rhan fwyaf o deithiau ond tua munud yn hirach ond byddai hyn yn gwneud y ffyrdd yn fwy diogel i gerddwyr a seiclwyr. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan yn:
Saith peth efallai na wyddoch am derfyn cyflymder diofyn 20mya newydd Cymru | LLYW.CYMRU
Cyflwyno terfynau cyflymder diofyn o 20mya | LLYW.CYMRU
Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: Cwestiynau Cyffredin | LLYW.CYMRU

Gaf i hefyd gyfeirio aelodau'r Pwyllgor Deisebau at [Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU]. Newid yn yr hinsawdd yw'r her fwyaf rydyn ni'n ei hwynebu, ac mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi ymrwymo i'w gymryd o ddifrif - gwneud penderfyniadau na fydd bob amser yn gyffyrddus neu'n hawdd, ond sydd eu hangen ar gyfer cenedlaethau Cymru i'r dyfodol. Mae newid moddol yn ganolog i’r strategaeth a bydd newid y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya yn chwarae rhan annatod. Rydym yn buddsoddi mewn teithio llesol ac yn targedu 45 y cant o'r holl deithiau i ddigwydd ar drafnidiaeth gyhoeddus, beicio neu gerdded erbyn 2040. Bydd y newid moddol hwn yn ei dro yn helpu i leihau allyriadau drwy leihau nifer y cerbydau ar y ffordd yn enwedig y rhai sy'n gwneud teithiau byrrach y gellid eu gwneud ar droed neu feic. Fel gydag unrhyw newid diwylliannol rydyn ni'n gwybod ei fod yn cymryd amser i newid meddyliau ac yn anochel byddwn yn wynebu rhywfaint o heriau, ond rwy'n hyderus os ydyn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd y gallwn wneud y newidiadau angenrheidiol a fydd o fudd i ni nawr ac yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change